
# Bwydlen Gwaith Cartref Hanner Tymor Cyntaf yr Hydref 2019



Mae angen gwneud o leiaf 5 tasg erbyn Hydref 25ain. Bydd angen i o leiaf dau ohonynt fod yn rhai ‘coch’.

Cewch ddewis ffordd o gyflwyno’r gwaith ond mae’n rhaid iddo fod yn daclus.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ffeil Ffeithiau**<br>Dewiswch gastell i ymchwilio. Ceisiwch fynd i ymweld ac yna ysgrifennwch 10 ffaith amdano. | **Dylunio a Thechnoleg**<br>Ewch ati i greu castell. Ceisiwch gynnwys prif nodweddion castell – tyrrau, ceudy, twll mwrdwr, porth cwlis. Fedrwch chi gynnwys pont grog? | **Cynnal Cyfweliad**<br>Chwiliwch am gyn-ddisgybl Bryn-y-Môr – oedolyn os yn bosib, ac ewch ati i gynnal cyfweliad gydag ef neu hi. Meddyliwch am gwestiynau addas a chofnodwch neu recordiwch y cyfweliad. | **Pwyso a Mesur**<br>Chwiliwch am 10 peth o’r gegin i bwyso a 10 peth i fesur o gwmpas y tŷ. Amcangyfrifwch y pwysau a’r hyd, yna pwyswch a mesurwch, gan gofnodi’r mesurau cywir. |
| **Creu Graff**<br>Casglwch ddata am hoff gastell allan o chwech o leiaf 20 person a dangoswch y wybodaeth yma ar graff.<br>Lluniwch o leiaf pump cwestiwn am y data ac atebwch y cwestiynau. | **Mynegi Barn**<br>Dewiswch destun siarad yr wythnos a chasglwch farn o leiaf pedwar person. Ceisiwch siarad gyda phobl o wahanol oedrannau. | **TGCh**<br>Ewch ati i baratoi cyflwyniad ar y wlad mae gennych gyfrifoldeb drosti dros adeg ‘Cwpan y Byd’. | **Creadigol**<br>Ewch i ymweld â chastell os yn bosib (neu edrychwch ar lun) ac ewch ati i greu llun ohono – cewch ddefnyddio unrhyw gyfrwng o’ch dewis. |
| **Llawysgrifen**<br>Copiwch y gerdd gan ddefnyddio eich llawysgrifen orau.<br>Cewch addurno’r dudalen o gwmpas y gerdd yn daclus. | **Gwrando**<br>Gwrandewch ar dri darn o gerddoriaeth gan Karl Jenkins. Ysgrifennwch amdani – pa ddarn ydych chi’n hoffi orau a pham? Beth sy’n eich taro am y tempo a’r dynameg ? Pa offeryn/offerynnau sydd i’w clywed? Beth am leisiau? | **Lles**<br>Ewch allan am dro a chasglwch ddail o bump coeden gwahanol. Casglwch gnau a mes. Oes unrhyw beth arall o ddiddordeb i’w gasglu?<br>Mesurwch gylchedd 2 goeden. Gwnewch rhwbiad rhusgl ar 2 goeden wahanol. | **Daearyddiaeth**<br>Dewiswch 6 lle yr hoffech ymweld â nhw o fewn parciau cenedlaethol Cymru. Ysgrifennwch o leiaf un ffaith diddorol am bob un. |